

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Mawrth 6ed 2017 am 7.30 y.h.

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd Alun Owen cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Gari B Jones

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen a Paul Weston
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans, Gari Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts
Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Chwefror** -cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
 - 5.1. Toiledau Cyhoeddus – wedi cael ymateb gan Steven Teale ynglŷn ag agor a chau'r cyfleusterau ond dal yn anhapus gyda'r ymateb cafwyd ganddo felly penderfynwyd ei wahodd i'r cyfarfod nesaf.
 - 5.2. Offer Chwarae – gan mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydyw cynnal a chadw'r offer ar ôl trafodaeth cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn tynnu'r offer oddi yno a bod Cyngor Conwy yn fodlon gwneud y gwaith yn rhad ac am ddim.
 - 5.3. Gwaith Cynnal – ar ôl cael gair gyda Gethin Pys penderfynwyd gofyn iddo am bris ffrâm newydd unai mewn pren caled a phren meddal hefyd ar gael y golau i weithio.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. BDO – yr archwilwyr allanol – cafwyd ymateb ganddynt ond dim ymateb i'r cwestiynau a roddwyd ger ei bron felly penderfynwyd ail yrru atynt yn gofyn am fanylder y gost o archwilio.
 - 6.2. Comisiwn Ffiniau i Gymru – ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cychwynnol ar y newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Angen ymateb rhwng 28 Chwefror a 27 Mawrth.
 - 6.3. Comisiwn Ffiniau - arolwg Conwy – cyfarfod yn Bodlondeb ar 1af Mehefin am 6o'r gloch. Cytunodd Gari Jones fynd ar ein rhan.
7. **Talu Anfoneb:**
 - 7.1. BDO - £302.25 – penderfynwyd na fyddwn yn talu'r anfoneb tan gawn well ymateb ac atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd.
8. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl edrych dros y gyllideb cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth mewn trefn.
9. **Penodi Archwiliwr Mewnol:**

Cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio gofyn i Eirian Roberts archwilio'r cyfrifon eto eleni ac anfonwyd copi o'r contract iddi. Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio a phawb yn gytûn anfon cydnabyddiaeth o **£50.00** i Eirian Roberts am ei gwaith o archwilio'r cyfrifon llynedd. Talwyd gyda siec rhif **100279**.
10. **Mabwysiadu'r Saith Maes Allweddol:**
 - i) **Rheoliadau Sefydlog** – ar gynigiad Dewi Evans gyda Edmund Rees yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.
 - ii) **Rheoliadau Ariannol** – ar ôl ei archwilio cynigiodd Gwynfor Roberts gydag Alun Edwards yn eilio ei mabwysiadu fel rhai cywir.
 - iii) **Rholiadau Mewnol** – ar gynigiad Edmund Rees gyda Dewi Evans yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.
 - iv) **Polisi Ymateb i Gwynion** – cynigiodd Alun Edwards gyda Gwynfor Roberts yn eilio ei mabwysiadu yn gywir.
 - v) **Aseiad Risg** – ar gynigiad Dewi Evans gydag Alun Edwards yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cywir.
 - vi) **Còd Ymddygiad** – ar gynigiad Gwynfor Roberts gyda Dewi Evans yn eilio mabwysiadwyd fel rhai cyflawn.
 - vii) **Cyllideb** – cadarnhawyd mabwysiadu'r gyllideb gan Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio.

11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts:**
Cafwyd adroddiad o'r diweddara yng ngwaith y Cyngor Sir, dywedodd hefyd bod treth y cyngor yn codi 4.6% eleni.
12. **Unrhyw fater arall:**
12.1. Rhannwyd allan Pecynnau Papur Enwebu ar gyfer yr etholiad ar Fai 4ydd 2017.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Ebrill 10fed 2017 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ Dyddiad 10.04.17
Cadeirydd
